You are not viewing the production site.



# Trwsio Tai

## Cyflwyniad

Gallwn ond ystyried cwynion am gynghorau a chymdeithasau tai; ni allwn ddelio â chwynion ynghylch landlordiaid preifat.

Fel landlord, mae gan y cyngor neu'r gymdeithas dai gyfrifoldeb cyfreithiol dros wneud gwaith trwsio arbennig. Yn ôl y gyfraith, rhaid yn gyntaf dod â'r broblem at sylw'r landlord a rhaid i'r landlord hefyd fod wedi cael cyfle rhesymol i wneud y gwaith trwsio cyn i chi gwyno i ni.

Mae gan denant rai cyfrifoldebau i gynnal a chadw'r eiddo, a bydd manylion y rhain yn eich cytundeb tenantiaeth.

Mae'r gwaith trwsio y mae'r landlord yn gyfrifol amdano yn cynnwys y canlynol:

- strwythur a thu allan eich cartref (gan gynnwys y to a'r peipiau);
- y system wresogi (gan gynnwys y bwyler a'r cyflenwad dŵr poeth);
- y bath, y gawod, sinc a'r toiled (gan gynnwys unrhyw waith peipiau cysylltiedig);

You are not viewing the production site.

mewn bloc o fflatiau)

Rhaid i'r landlord hefyd archwilio unrhyw fwyler neu gyfarpar nwy sydd wedi'i ddarparu ganddo, bob blwyddyn, a rhoi tystysgrif diogelwch i chi i ddangos bod hyn wedi'i wneud.

## Yr hyn gallwn ei wneud

Byddwn yn gallu edrych ar gwynion bod y landlord wedi:

- methu cyflawni gwaith trwsio i'r cartref yr ydych yn ei rentu ganddo;
- oedi yn delio gyda'ch cais i wneud gwaith trwsio;
- colli apwyntiadau;
- methu datrys problem drwsio y gwnaethoch roi gwybod amdani, mewn amser rhesymol.

## Yr hyn nad ydym yn gallu ei wneud

Ni fyddwn yn gallu:

- delio â chwynion am landlordiaid preifat;
- gorfodi eich landlord i wneud unrhyw welliannau (e.e. gosodion ystafell ymolchi newydd);
- gorfodi eich landlord i wneud gwaith trwsio mwy sylweddol na'r hyn sydd ei angen i ddelio â'r broblem.

You are not viewing the production site.

## Materion i gadw mewn cof

- Bydd eich cytundeb tenantiaeth efallai'n nodi pethau penodol eraill y mae eich landlord wedi cytuno i fod yn gyfrifol amdanynt.
- Bydd llawer o landlordiaid yn rhoi 'Llawlyfr Tenant' ichi, sy'n cynnwys gwybodaeth fel yr amserlen ar gyfer gwneud gwaith trwsio.

## Gwybodaeth bellach

Efallai y byddwch am ystyried cysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:

**Shelter Cymru** sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar dai. Gallwch eu ffonio ar **08000 495 495** neu yn https://www.sheltercymru.org.uk.

**Cyngor ar Bopeth Cymru** sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys tai). Gallwch gysylltu â nhw yn https://www.citizensadvice.org.uk (a dewis opsiwn tudalen 'Cymru') a chofnodi eich cod post i gael manylion ar sut i gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol agosaf.

Efallai y bydd eich **Aelod Cynulliad** lleol yn gallu cynnig cyngor a chymorth hefyd.

You are not viewing the production site.

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

## Hawdd ei Ddarllen

Trwsio Tai